



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020

Cynllun Rheoli Cynaliadwy – Cwestiynau Cyffredin



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar
gyfer Datblygu Gwledig:
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for
Rural Development:
Europe Investing in Rural Areas



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cwmpas y Cynllun Rheoli Cynaliadwy

Beth yw'r Cynllun Rheoli Cynaliadwy?

Mae'r Cynllun Rheoli Cynaliadwy yn rhan o'r **Cynllun Datblygu Cydweithredu a'r Gadwyn Gyflenwi (C&SCDS)** sy'n cael ei ddarparu o dan Fesur 16 (Erthygl 35 o Reoliad (EU) 1305/2013). Mae'r C&SCDS yn elfen bwysig o Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020. Mae'r Cynllun Rheoli Cynaliadwy yn cael ei ddarparu o dan Is-Fesur 16.5 o Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020.

Nod y Cynllun Rheoli Cynaliadwy yw cefnogi'r gwaith o wireddu ymrwymiad Llywodraeth Cymru at ddatblygu cynaliadwy fel y'i nodwyd yn Neddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Drwy gefnogi camau cydweithredol a chydgyssylltiedig, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gall wneud yn fawr o gyfleoedd i wella'r gwasanaethau y mae ein hadnoddau naturiol yn eu darparu. Bydd hefyd yn lleihau'r peryglon gwirioneddol y mae'r newid yn yr hinsawdd yn eu hachosi i'n busnesau, ein seilwaith a'n cymunedau gwledig ac yn cwrdd â'n cyfrifoldebau a'n rhwymedigaethau rhyngwladol gan fanteisio'n llawn ar y cyfleoedd economaidd sydd ar gael i'r sector amaeth a busnesau gwledig

Beth sy'n cael ei ariannu?

Pwrpas y Cynllun Rheoli Cynaliadwy yw cefnogi prosiectau cydweithredol sy'n gweithredu ar raddfa tirwedd, a cheisio gwella a chryfhau ein hadnoddau naturiol a'n hecosystemau mewn ffordd sydd hefyd yn sicrhau manteision i fusnesau fferm a chymunedau gwledig. Bydd hefyd yn helpu i leihau nwyon tŷ gwydr yn y sector ac yn cefnogi'r gwaith hollbwysig sydd ei angen er mwyn helpu busnesau fferm a chymunedau gwledig i addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd.

Yn aml iawn mae'n cymryd amser i ddatblygu grwpiau cydweithredol cwbl weithredol a gwneud y gwaith cynllunio sy'n ofynnol ar gyfer rhai gweithgareddau rheoli tir y mae'n rhaid eu gwneud mewn tymhorau penodol. O ganlyniad, bydd y Cynllun Rheoli Cynaliadwy hefyd yn cefnogi cynigion sy'n ceisio hwyluso, datblygu neu sefydlu grwpiau cydweithredol a gweithgareddau newydd; hwyluso cytundeb ar flaenoriaethau lleol a helpu darpar grwpiau cydweithredol i ddatblygu cynigion ar gyfer prosiectau. Bydd angen i brosiectau o'r fath ddarparu tystiolaeth glir y bydd y gweithgaredd hwn yn cynnwys gwaith ymarferol gweladwy sydd â manteision amgylcheddol, cymdeithasol neu economaidd, neu ei fod yn debygol o arwain at hynny

Sut mae hyn yn mynd i'r afael â'r blaenoriaethau o safbwynt adnoddau naturiol?

Mae'r Cynllun Rheoli Cynaliadwy yn cefnogi prosiectau sy'n gweithredu i helpu i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

Nod rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yw cynnal a gwella cadernid ecosystemau a'r manteision maent yn eu darparu, gan ddiwallu anghenion y genhedlaeth hon heb roi gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion yn y fantol.

Mae Datganiad Polisi ar Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru yn pennu'r cyfleoedd a ddaw o'n hadnoddau naturiol, yr heriau sydd angen mynd i'r afael â hwy a'r blaenoriaethau cenedlaethol i ddatblygu'r rhain.

Mae blaenoriaethau gweithredu y Cynllun Rheoli Cynaliadwy wedi'u datblygu i helpu i gyflawni y Polisi Adnoddau Naturiol

Cymhwysedd

Pa weithgareddau sy'n gymwys?

Datblygu a chydlynu grwpiau cydweithredol a rheoli prosiectau er mwyn bwrw ymlaen â gweithgareddau i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, gwella gwasanaethau ecosystemau, a lliniaru effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ac addasu iddynt.

Camau cydweithredol a gymerir gyda'r bwriad o liniaru neu addasu i'r newid yn yr hinsawdd a/neu waith cyd-gysylltiedig, ar raddfa'r dirwedd, i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a darparu gwasanaethau ecosystemau a sicrhau nifer o fanteision.

Cyfathrebu a lledaenu dulliau, gwersi a chanlyniadau'r prosiect; lledaenu gwybodaeth ymysg cymunedau a phartïon eraill sydd â diddordeb a chyfathrebu â nhw.

Ymchwil, cyngor technegol ac astudiaethau dichonoldeb – gall syniad da ar gyfer camau cydgysylltiedig olygu bod angen asesiadau technegol o'r ardal dan sylw, neu ddealltwriaeth o'r farchnad newydd a dargedir. Er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau, mae'n bwysig sicrhau bod y gweithgaredd cywir yn cael ei gynnal yn y lle cywir. Felly mae modelu, cyngor technegol ac astudiaethau dichonoldeb yn gymwys ar gyfer cyllid.

Monitro a Gwerthuso – gweithgareddau i ddangos canlyniadau'r camau cydweithredol, drwy fonitro'r effeithiau, gan sicrhau bod asesiad cychwynnol yn cael ei wneud cyn cymryd camau pellach a chyn mynd ati i fesur y newidiadau sy'n dilyn. Mae hefyd yn cynnwys gweithgareddau sy'n ymwneud â datblygu gwersi allweddol a chofnodi profiadau'r rheini a oedd yn rhan o'r gwaith a wnaed ar y cyd er mwyn helpu gyda'r gwaith o lywio rhaglenni a phrosiectau'r dyfodol. Mae cost asesiad allanol, annibynnol o'r gweithgareddau cydweithredol yn weithgaredd cymwys.

Pa weithgareddau nad ydynt yn gymwys ar gyfer eu cyllido?

Mae nifer o weithgareddau a buddsoddiadau nad ydynt yn gymwys i gael cymorth o dan y mesur hwn:

- Taliadau uniongyrchol i dirfeddianwyr, ffermwyr neu goedwigwyr am waith cyfalaf a wneir ar eu tir eu hunain.

- Taliadau uniongyrchol i dirfeddianwyr, ffermwyr neu goedwigwyr am weithgareddau rheoli tir rheolaidd
- Buddsoddi yn y gwaith o cynhyrchu nwyddau amaethyddol neu bren sylfaenol megis gweithgareddau a fyddai'n gymwys i gael cyllid o dan y Cynllun Grant Cynhyrch Cynaliadwy (SPGS) neu'r Grant Buddsoddi mewn Busnesau Pren (TBIG).

Pwy sy'n cael gwneud cais?

Mae'r cynllun hwn yn agored i geisiadau gan BBaChau a busnesau mawr, sefydliadau addysg neu ymchwil, ffermwyr, coedwigwyr, grwpiau cymunedol neu wirfoddol (gan gynnwys pob sefydliad anllywodraethol) sy'n gweithredu'n bennaf mewn ardal wledig ac sy'n gysylltiedig ag amaethyddiaeth, coedwigaeth neu reoli tir. Mae hyn yn cynnwys cymdeithasau sy'n gysylltiedig â pherchenogion a choetiroedd cymunedol ac awdurdodau lleol.

Os na chaniateir gwneud taliad uniongyrchol i ffermwyr, a oes modd cynnal gweithgaredd drwy contractiwr?

Mewn egwyddor, oes. Gall contractwyr gynnal amrywiaeth o weithgareddau fferm. Fodd bynnag, mae'n rhaid defnyddio'r profion allweddol ar gyfer cymorth gwladwriaethol er mwyn sicrhau nad yw'r grant yn cael ei ddefnyddio i dalu costau cynhyrchu nwyddau sylfaenol y fferm.

A yw talu am fugail ar gyfer cynllun cydweithredol yn gymwys i gael cymorth o dan y cynllun?

Dylai fod yn bosibl mynd ati mewn ffordd deg i gael bugail annibynnol i ddarparu'r gwasanaeth dros gyfnod y prosiect – a bwrw mai prif ddiben y prosiect yw rheoli'r pori er mwyn sicrhau bod gwelliannau amgylcheddol mwy effeithiol yn cael eu gwneud ar y dirwedd. O ganlyniad, bydd hynny'n sicrhau'r canlyniadau gorau i'r gwasanaethau ecosystem.

Sut mae'r Cynllun Rheoli Cynaliadwy yn ategu Cynlluniau Cymunedau Gwledig - Datblygu Gwledig eraill?

Mae'r Cynllun Rheoli Cynaliadwy wedi'i lunio mewn modd sy'n ategu cynlluniau Cymunedau Gwledig-Datblygu Gwledig eraill megis Glastir a chyfleoedd cyllido'r Grant Cynhyrchu Cynaliadwy ac yn gallu gweithredu ochr yn ochr â'r cynlluniau hynny. Mae Glastir yn targedu amrywiaeth o ganlyniadau ar sail daliadau ffermydd. Gellir defnyddio'r Cynllun Rheoli Cynaliadwy i gydlynu'r ymdrechion lleol drwy gydweithio â'r rhai sy'n rhan o Glastir a thrwy ymgysylltu â thirfeddianwyr eraill nad ydynt yn cymryd rhan yn Glastir neu nad ydynt yn gymwys ar ei gyfer. Drwy hynny, bydd y cynlluniau gyda'i gilydd yn gallu cael effaith ar raddfa fawr ac ar y dirwedd.

Y Broses Ymgeisio

Sut gallaf wneud cais?

Bydd y broses ymgeisio ar gyfer y Cynllun Rheoli Cynaliadwy yn broses ddau gam. Y cam cyntaf fydd cyflwyno Datganiad o Ddiddordeb. Bydd ymgeiswyr sy'n llwyddo gyda'u Datganiad o Ddiddordeb yn cael eu gwahodd i gwblhau'r ail gam, sef cyflwyno cais llawn.

Bydd ceisiadau Datganiad o Ddiddordeb yn cael eu cyflwyno mewn cystadleuaeth uniongyrchol â'i gilydd a disgwylir y bydd galw sylweddol am y grant sydd ar gael. Caiff y cynigion eu hasesu yn erbyn y meini prawf ar gyfer dethol. Mae'r rheini a'r nodiadau cyfarwyddyd ynghlwm wrth ddogfennau'r Datganiadau o Ddiddordeb.

Sut y caiff fy Natganiad o Ddiddordeb ei asesu?

Bydd y Datganiadau o Ddiddordeb yn cael eu sgorio a'u rhoi yn nhrefn teilyngdod yn unol â'r meini prawf ar gyfer dethol a gyhoeddwyd. Bydd y cynigion yn cael eu dethol yn ôl y drefn honno hyd nes y bydd yr arian sydd ar gael wedi'i ddyrannu neu fod y terfyn uchaf o ran nifer y ceisiadau wedi'i gyrraedd. Nid oes unrhyw sicrwydd y bydd yr arian i gyd yn cael ei ddyrannu nac y bydd y nifer uchaf o brosiectau'n cael eu gwahodd i gyflwyno cais llawn.

Sut mae cyflwyno cais llawn?

Rhaid i geisiadau llawn gael eu cyflwyno trwy borth ar-lein Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO). Darperir canllawiau i bob ymgeisydd.

Sut y bydd fy nghais llawn yn cael ei asesu?

Bydd y cais llawn yn cael ei werthuso yn unol â Chanllawiau'r Cynllun a'r rheolau cymhwysedd. Bydd y ceisiadau yn destun arfarniad llawn o ddiwydrwydd dyladwy ac archwiliadau, a dim ond ar ôl i'r rhain gael eu cwblhau y bydd penderfyniad terfynol yn cael ei wneud o ran cynnig grant. Nid oes unrhyw sicrwydd y bydd prosiect a gynigir yn cael ei gymeradwyo ar gyfer grant. Fel arfer, bydd y broses arfarnu ar gyfer ceisiadau llawn yn cymryd hyd at uchafswm o dri mis o'r dyddiad pryd y daw'r cais llawn a'r holl wybodaeth berthnasol i law.

Beth yw'r trothwy ar gyfer isafswm ac uchafswm y grantiau?

Gall y grantiau amrywio o £10,000 hyd at uchafswm o £700,000. Y gyfradd uchaf o grant y gellir ei rhoi yw 100%.

Pa arian sydd ar gael ar gyfer y Cynllun Rheoli Cynaliadwy?

Bydd y cyllid dangosol a fydd ar gael ar gyfer pob cyfnod yn cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru o flaen llaw.

Beth yw telerau ac amodau'r grant?

Bydd y cynigion llwyddiannus yn cael llythyr dyfarnu'r grant a bydd hwnnw'n nodi amodau a thelerau'r grant yn glir. Bydd modd i Lywodraeth Cymru a'r cynigydd drafod y telerau hynny.

Amserlenni

Beth yw hyd y cyfnod ar gyfer cyflwyno Datganiadau o Ddiddordeb?

Disgwylir y bydd y cyfnodau ar gyfer cyflwyno datganiadau o ddiddordeb yn cael eu hagor bob 9 mis. Disgwylir y bydd pob cyfnod ar agor am ddau neu dri mis calendr. Bydd y dyddiadau yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru (gweler y ddolen uchod) am gyfnodau treigl o 2 flynedd, ac mae'n bosibl y byddant yn cael eu hadolygu. Bydd hyn yn galluogi'r ymgeiswyr i flaengynllunio eu ceisiadau i gwrdd ag anghenion eu busnes o ran yr amserlenni, tymhorau'r prosiectau ac ymgymryd â'r gweithgareddau fesul cam.

Gwybodaeth

Fel rhan o'r prosiect, a oes modd inni gael gwybodaeth arbenigol ar rywogaethau?

Mae yna bobl, a allai fod yn bartneriaid posibl, sydd eisiau cydweithio â grwpiau a chydweithredwyr i gynnig cyngor. Gall Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd gynnig cyngor arbenigol ar gyfer eich prosiectau.

Ymgysylltu â rhanddeiliaid

Pa gymorth a roddir i brosiectau sydd wrthi'n cael eu datblygu neu brosiectau sydd wedi bod yn aflwyddiannus?

Byddwn yn parhau i weithio gyda phrosiectau sydd wrthi'n cael eu datblygu a chyda phrosiectau sydd wedi bod yn aflwyddiannus er mwyn cynnig cyngor ar y camau nesaf. Byddwn hefyd yn rhoi cyngor ar y ffynonellau posibl y gellir troi atynt i gael cyllid. Felly ni fydd y gwaith a wnaed ar gyfer y cais yn mynd yn ofer.

Ffyrdd o gael yr wybodaeth ddiweddaraf

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, neu os ydych am ymuno â'r rhestr bostio, anfonwch e-bost at: sustainablemanagementschem@gov.wales